# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)15-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 20 Mai 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, Yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Rosemary Butler, Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwyr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan y Llywydd am ei absenoldeb. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Lywydd.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)14-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 13 Mai 2008**

Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)15-08(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r datganiadau a ganlyn yn cael eu gwneud ddydd Mawrth:

Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth am y Strategaeth Cludo Nwyddau ar gyfer Cymru.

Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am bryderon diweddar ynghylch Gwasanaethau Mamolaeth Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwent.

Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r datganiadau hyn yn cymryd lle'r datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai am Ddatblygu Cynaliadwy a ohiriwyd tan 3 Mehefin, a'r datganiad am Reoli Perygl Llifogydd ac Adolygiad Pitt, a fyddai'n cael ei wneud yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn 4.30pm ar gyfer busnes y Llywodraeth ddydd Mawrth a busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ddydd Mercher.

3.3 Nodwyd y drefn fusnes ar gyfer 20 a 21 Mai 2008 gan y pwyllgor.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)15-08(p2)**

3.4 Nodwyd amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf gan y pwyllgor.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)15-08(p3)**

3.5 Cytunodd y pwyllgor i gynnwys yr eitemau canlynol fel rhan o fusnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar 4 Mehefin:

Cynnig i ethol Aelod i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Cynnig i ethol Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru.

3.6 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Papur yn gwneud cais i ymestyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno adroddiad y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl - BC(3)15-08(p4)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes gais gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl i ymestyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno adroddiad y pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd mai'r rheswm dros ymestyn y cyfnod am un wythnos ychwanegol tan 20 Mehefin 2008 oedd er mwyn caniatáu digon o amser i'r Pwyllgor Deddfwriaethol gael ystyried materion a oedd heb eu datrys. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais. Dywedodd y Cadeirydd y câi'r amserlen ddiwygiedig ei gosod gerbron y Cynulliad.

**5. Pwyllgorau'r Cynulliad**

Cais gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i gyfarfod yn y Rhyl - BC(3)15-08(p5)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor y byddai'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn gallu cynnal cyfarfod ffurfiol fore Mawrth 5 Mehefin fel rhan o'i ymchwiliad i ganiatâd tybiedig i roi organau. O ran teithio i gyfarfodydd allanol, neu gyfrannu i ymweliadau, teimlai'r Pwyllgor Busnes y dylai'r Aelodau gael eu hatgoffa y dylent roi blaenoriaeth i Fusnes y Cynulliad. Cytunwyd y byddai'r Rheolwyr Busnes yn trafod y mater hwn â'u Haelodau. Teimlai'r pwyllgor hefyd y dylai clercod y pwyllgorau gofio hyn wrth wneud trefniadau, gan atgoffa'r Aelodau o farn y Pwyllgor Busnes pan fydd hynny'n briodol.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**